

ARGLWYDDES LLANOFR: Y BERSONOLIAETH Y TU ÔL I'R PROSIECT

Celyn Gurden-Williams

Abstract

Lady Llanover: The Personality behind the Project
Augusta Hall, Lady Llanover (1802–1896), was a famous personality in Monmouthshire where she supported the Welsh language and culture as part of a project to create a ‘Welsh utopia’. She inherited the family estates of Llanover, near Abergavenny, and her descendants continue to manage the land today. In 1823 she married Benjamin Hall, who became a Member of Parliament and later Commissioner for Works after whom the bell in the Houses of Parliament clock tower, ‘Big Ben’, is said to have been named. He was created the 1st Baron Llanover in 1859. The family fortune was built on the iron and coal industries of south Wales and, like her friend and contemporary, Lady Charlotte Guest, Lady Llanover worked tirelessly to support Welsh culture at a time of increasing anglicization. A patron of Welsh bards and intellectuals at Llanover Hall, she learned Welsh and adopted the bardic name ‘Gwenynen Gwent’, ‘the Bee of Gwent’. She is also credited with re-designing the traditional Welsh national costume. Though she is often regarded as an eccentric and some have criticized her for indulging in ‘Celtic romanticism’, this paper defends her activities as being motivated by a true concern for her family, tenants, and Wales itself. Quoting from Lady Llanover’s correspondence with friends and family, the paper presents a striking portrait of an unusual, controversial, and influential woman.

Mae'n bleser cael siarad â Chymdeithas y Cymmrodorion heddiw. Mae'r ddarlith hon wedi ei seilio ar waith ymchwil fy nhraethawd doethur. Rhwng 2004 a 2008 yr oedd Arglwyddes Llanover yn rhan annatod a phwysig o'm bywyd. Mae'n siŵr fod nifer ohonoch yn gyfarwydd â hi a'i diddordebau eang. Yn sicr, mae hi'n gymeriad enwog yn Sir Fynwy ac ar draws Cymru am nifer o resymau. Wrth imi ymchwilio a dysgu mwy am ei gweithgareddau deuthum i'r casgliad mai prif nod Arglwyddes Llanover oedd creu iwtopia Gymreig. Datblygodd y rhyddid i wneud hyn ar ei hystad deuluol yn Llanover tua phum milltir o'r Fenni. Gyda llaw mae disgynyddion Arglwyddes Llanover yn byw ar yr ystad hyd heddiw ac mae'n parhau i fod yn lle arbennig a phrydferth.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o unigolion yn ei sefyllfa, defnyddiodd ei grym fel aelod o bendefigaeth y meistri haearn a glo i hybu diwylliant Cymreig yng Nghymru a'r tu hwnt. Gwnaeth hyn yn ystod cyfnod pan oedd Sir Fynwy'n wynebu proses o Seisnigo, wrth i'r chwyldro diwydiannol drawsnewid y rhanbarth yn economaidd,

yn wleidyddol, ac yn gymdeithasol. Mae Arglwyddes Llanofwr yn adnabyddus am hyrwyddo'r iaith Gymraeg, llenyddiaeth, cerddoriaeth, ac eisteddfodau Cymru. Y mae hefyd yn adnabyddus am ail-ddylunio'r wisg Gymreig ac am hybu dirwest. Amddiffynnodd ei delfryd o ddiwylliant a hunaniaeth Gymreig gydag angerdd a thanbeidrwydd.

Disgrifiwyd Arglwyddes Llanofwr gan rai cyfoedion fel 'humbug', 'Maeslywydd', a gwraig â'r 'galon fwyaf caredig'. Ond yn bwysicach na hynny fe'i hadnabuwyd fel 'Gwenynen Gwent' oherwydd ei diddordeb yn niwylliant Cymru, ei hymroddiad, a'i gwaith diflino wrth hyrwyddo ei fersiwn hi o ddelwedd Cymru. Ni chafwyd ffugenw mwy addas erioed. Yr oedd yn disgrifio ei chymeriad yn berffaith. Wedi'r cyfan, gweithiai'n eithriadol o galed ac yr oedd mor 'ddiwyd â'r wenynen', ond weithiau canfu'r bobl a anghytunai â hi ei bod yn gallu pigo. Mae'n wir nad oedd ac nad yw pawb wedi eu hargyhoeddi gan ei syniadau ond gallwn ddweud i sicrwydd bod Gwenynen Gwent yn un o'r menywod mwyaf diddorol a dylanwadol yn hanes Cymru yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Torrodd drwy ystrydebau rhywedd, gan ddylanwadu ar ei theulu, ei ffrindiau, a'i thenantiaid i amddiffyn ffordd arbennig o fwy. Serch ei hymdrechion, ni pharhaodd ei dylanwad ar raddfa genedlaethol, ond parhaodd Llanofwr i fod yn ficrocosm o'i gweledigaeth Gymreig. Yn ei henaint, gwelwyd Arglwyddes Llanofwr gan rai o'i chyfoedion fel hen fenyw od a ymyrrai ormod ym musnes pobl eraill. Ond rhaid cwestiynu ei chymhelliad. Mae'n annhebyg bod ei hymdrechion wedi eu cymell gan awydd am foddhad personol. Yr oedd ei diddordeb yn niwylliant Cymru yn ymddangos yn ddyfnach na'r awydd i ramanteiddio'r gorffennol. Mae'n debyg fod Arglwyddes Llanofwr wedi penderfynu chwarae rôl glasurol y bonedd Cymreig i hybu a diogelu diwylliant Cymru. Yn y broses, crëwyd fersiwn arbennig o hunaniaeth Gymreig. Nid oes amheuaeth fod ei phersonoliaeth a'i hunaniaeth wedi chwarae rhan anhepgor yn hyn oll.

Felly yn y papur hwn, yr wyf am ganolbwyntio ar fywyd personol Arglwyddes Llanofwr a'i pherthynas gyda'i theulu, ei ffrindiau, a'i gelynyon. Byddaf yn ystyried ei rôl fel merch, gwraig, mam, mam-gu, a phennaeth ystad Llanofwr gan ddadansoddi ei geiriau ei hun. A thrwy wneud hyn byddaf yn datgelu tipyn o'r bersonoliaeth y tu ôl i'r prosiect.

Ganwyd Augusta Waddington ar yr unfed ar hugain o Fawrth 1802 yn Nhŷ Uchaf ar Ystad Llanofwr. Penderfynasai ei rhieni Benjamin (1749–1828) a Georgina (1771–1850) Waddington symud i Gymru. Er mai Saeson oedd ei theulu, ganwyd Arglwyddes Llanofwr yng Nghymru ac yr oedd yn ei hystyried ei hun yn Gymraes. Yn wir, disgrifiodd hunaniaeth hollt fel ffenomen annaturiol.

Yr oedd Arglwyddes Llanofwr yn agos iawn at ei mam, Georgina, a fagwyd gan ei modryb, Mary Delany, a oedd yn aelod o'r cylch o wragedd deallusol yn y ddeunawfed ganrif. O ganlyniad, fe gafodd Augusta fach, ynghyd â'i chwiorydd Frances ac Emily, addysg amrywiol a oedd yn debycach i addysg merch fonheddig yn y ddeunawfed ganrif na'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oedd unrhyw oriau penodol ar gyfer gwersi a châl'r plant eu hannog i chwarae yn yr awyr agored. Yr oedd eu cwricwlwm yn cynnwys popeth o seryddiaeth i gerddoriaeth. Yn ddiamau yr oedd Arglwyddes Llanofwr yn deall ac yn gwerthfawrogi dylanwad



[Fig. 1] *Arglwyddes Llanofer. Llyn wedi ei atgynhyrchu o albwm teuluol Llanofer a Herbert. (Archifau Gwent, Misc MSS 1931)*

pellgyrhaeddol Mrs Delany, oherwydd yn ddiweddarach penderfynodd olygu a chyhoeddi gohebiaeth ei pherthynas enwog.

Yr oedd Arglwyddes Llanofer yn berson cryf a phenderfynol. Hyd yn oed fel plentyn bach yr oedd Augusta Waddington (fel yr oedd y pryd hwnnw) yn gwybod ei meddwl ei hun. Penderfynodd gael clustdlysau pan nad oedd ond yn dair blwydd oed. Ysgrifennodd Mrs Waddington at ei ffrind a mam fedydd ei phlentyn, sef Lady Elizabeth Greenly, i ddisgrifio'r digwyddiad:

I must tell you an instance of Augusta's heroism [...] When in London she saw Mrs. Charles Locke's daughters of her own age with earrings and the little vain puss has ever since desired to have her ears bored [...] I told her if she chose to be hurt for the sake of wearing earrings, I would send for a woman to make holes and put a pair in, but that she must have both ears done, even if after the ear was pierced she repented.¹

Llifodd gwaed y ferch fach ar ôl torri twll trwy'r glust gyntaf ond ni chlywyd siw na miw ganddi ac aeth ati i gael clustdlws yn yr ail glust heb brotest. Os yw'r stori'n gwbl wir mae'n dangos mor ddewr â thra phenderfynol ydoedd, yn enwedig wrth gadw ei haddewidion. Gellid hefyd ddadlau mai dyma oedd yr arwyddion cyntaf o'r person ystyfnig, digyfaddawd y datblygodd Arglwyddes Llanofer i fod.

Deilliodd chwilfrydedd Arglwyddes Llanofer ynghylch yr iaith Gymraeg o

1 Aberystwyth, National Library of Wales, MS Maxwell Fraser CB/6(i), letter from Lady Greenly to Mrs Waddington, 11 July 1805. Aberystwyth, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, llsgr. Maxwell Fraser CB/6(i), llythyr oddi wrth y Fonesig Greenly at Mrs Waddington, 11 Gorffennaf 1805.

siarad â thenantiaid ei thad. Yn wir, dyma'r esboniad a gofnodwyd yn y wasg. Dywedwyd i bryderon un hen ŵr ei hysgwyd gymaint nes iddi benderfynu gweithredu. Yr honiad oedd iddo ddweud:

What a pity it was to think that 40 years hence Welsh would be an unknown language in these parts. The heiress instantly answered, 'You are wrong, for Welsh shall be very much spoken here if I can help it.'²

Mae tarddiad y stori hon yn anhysbys, ond os yw'n esboniad dilys a roddwyd gan Arglwyddes Llanofar ei hun neu'n hanes a ffugwyd gan bapur newydd, mae'n awgrymu bod ei phenderfyniad i warchod y Gymraeg ar ystad Llanofar wedi ei wneud ym more ei hoes. Yr oedd hon yn agwedd anghyffredin iawn ymysg y dosbarth uchaf breintiedig ar y pryd.

Yn ystod ei harddegau ceisiodd Arglwyddes Llanofar ddarbwylllo'i chwaer hŷn, Frances Bunsen, i werthfawrogi'r iaith Gymraeg. Ysgrifennodd Frances lythyr at Augusta gan fynegi ei hesgusodion:

I begin with an apology to Miss A. as to the Welsh. I repeatedly have studied her valuable extracts, and hope soon to thank and praise her in a few Welsh verses, as I really have the last fortnight been very much interested with whatever relates to Gaelic and Kymric languages [...]³

Ni wn yn sicr pryd, sut, na pham y dechreuodd Arglwyddes Llanofar ymddiddori gymaint yn niwylliant Cymru. Mae'n dra phosibl y bu rhai dylanwadau hollbwysig yn ystod ei blynyddoedd cynnar. Mae'n siŵr fod Lady Greenly o Titley Court yn Swydd Henffordd wedi chwarae rhan hanfodol. Fel un o noddwyr Iolo Morganwg mae'n debyg mai hi a gyflwynodd Arglwyddes Llanofar i Eisteddfod Aberhonddu yn 1826.

Ni weithiodd Gwenynen Gwent ar ei phen ei hun. Yn ystod ei chyfnod mwyaf prysur trwy'r 1830–50au yr oedd ganddi rwydwaith o ffrindiau o feddylfryd tebyg. Gellid cyfrif Charlotte a John Guest, Thomas Price (Carnhuanawc), Jane Williams (Ysgafell), a Maria Jane Williams (Llinos) yn eu plith, ynghyd â llawer mwy. Treuliodd amser gyda'i chydadelodau o Gymdeithas Cymreigyddion Y Fenni a gweithiodd yn gydybodol i wneud yr eisteddfodau yn llwyddiant ysgubol.

Ei gŵr, Benjamin Hall, oedd ei phartner mwyaf cefnogol, gŵr lleol o Abercarn, ac aelod o un o deuluoedd pwerus a blaenllaw'r chwyldro diwydiannol, sef y Crawshays. Etholwyd ef yn aelod seneddol dros Sir Fynwy ac yna dros Marylebone yn Llundain. Yr oedd ei gefnogaeth a'i ymroddiad i'r achos Cymreig yn hollbwysig. Priododd y cwpl yn 1823. Er iddynt fanteisio o gael cartrefi yn

2 *South Wales Daily News*, 20 January 1896. *South Wales Evening News*, 20 Ionawr 1896.

3 NLW MS Maxwell Fraser, CB7, 'Extracts from Notes and Letters of Baroness Bunsen (nee Waddington)', p. 37. LIGC llsg. Maxwell Fraser, CB7, 'Extracts from Notes and Letters of Baroness Bunsen (nee Waddington)', t. 37.

Llundain a Chaerfaddon, yr oedd eu dyletswyddau fel perchnogion tir yn Abercarn a Llanofer yn flaenoriaeth. Sefydlodd y cwpl ifanc ac uchelgeisiol dŷ newydd a chrand, sef Llys Llanofer, yn 1837. Cynhaliwyd dawns foethus i arddangos eu tŷ newydd yn ystod Eisteddfod Cymmreigyddion Y Fenni y flwyddyn honno.

Ymdrech bwrpasol iawn oedd hyn i ail-greu delwedd y bonedd urddasol Cymreig tebyg i'r oes Duduraidd. Yn wir, yr oedd y sgiliau a ddatblygodd Arglwyddes Llanofer drwy redeg tŷ a threfnu teulu yn rhai y gellid eu haddasu i'r byd diwylliannol y daeth yn rhan ohono.. Clodforwyd Llys Llanofer fel Mecca i bob bardd a daeth lletygarwch Llanofer yn enwog. Yng ngeiriau Arglwyddes Llanofer ei hun, 'A Bard never was in want of a bed [...] in one of these houses [...] filled [...] with spirits worthy of the occasion.'⁴ Croesawyd deallusion o Gymru ac ar draws Ewrop ym maes llenyddiaeth, cerddoriaeth, addysg, a chrefydd i astudio, creu, a pherfformio yno. Wrth sefydlu Llys Llanofer atgyfnerthwyd grym Gwenynen Gwent a'i dyrchafu i fod yn arweinydd y cylch diwylliannol. Yr oedd hi'n ffrind ffyddlon a chefnogol a gynorthwyodd i ariannu a hybu nifer o brosiectau. Mae llawer mwy i'w ddweud am waith a dylanwad pellgyrhaeddol cylch Llanofer, ond mae hynny'n bwnc ar gyfer papur arall.

Os oedd Arglwyddes Llanofer yn enwog am ei hegni yr oedd hefyd yn enwog am wrthdaro. Mae ei gohebiaeth gyda'i ffrind agos Betha Johnes yn ffynhonnell hynod o ddefnyddiol . Wrth astudio'r llythyrau at Betha cawn fewnwelediad defnyddiol i'r ddrama a dueddai i ddilyn Arglwyddes Llanofer. Yn sicr bu'r Arglwyddes yn cweryla gyda nifer o bobl dros y blynyddoedd ac ar bob achlysur yr oedd hi'n hollol argyhoeddedig o'i hegwyddorion. Rhoddodd filoedd o bunnoedd tuag at wobrau ar gyfer cystadlaethau Eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Ddeng mlynedd ar ôl Eisteddodd olaf Cymmreigyddion Y Fenni yn 1853 ceir disgrifiad tra gwahanol o'r Eisteddfod fodern:

They are only for the purpose of extinguishing the Welsh language and to give an opportunity [...] to mount the platform and in a style of condescending pathos lament the inferiority of the Welsh (in the opinion of some wretched ignoramus of a jackass) and tell them to learn more English. The more they learn the worse they become. They have not ever ventured to apply to me to give them a prize – they knew very well (if they did) they would receive such an answer as the Mayor of Caernarfon did last year – to tell them the prizes offered are in opposition not in support of the principles on which Eisteddfodau,,¹⁵

Pan benderfynodd pwyllgor o foneddigion Cymru gydweithio er mwyn comisiynu darn o emwaith fel anrheg i dywysoges Cymru mynnodd Gwenynen

- 4 NLW MS Glansevern 3690, letter from Lady Llanover to Mr. Johnes, 3 September 1853. LIGC, llgr. Glansevern 3690, llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofer ar Mr. Johnes, 3 Medi 1853.
- 5 NLW, Dolaucothi Correspondence , letter from Lady Llanover to Betha Johnes, 7 February 1863. LIGC, Dolaucothi Correspondence, llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofer at Betha Johnes, 7 Chwefror 1863.



Cambrian Costumes by Lady Llanover.
No. I. Welsh girl in the costume of part of Gwent.
Printed at the National Library of Wales



Cambrian Costumes by Lady Llanover.
No. II. Welsh girl in the costume of part of Gwent.
Printed at the National Library of Wales



Cambrian Costumes by Lady Llanover.
No. IX. Welsh girl in the costume of part of Gwent.
Printed at the National Library of Wales



Cambrian Costumes by Lady Llanover.
No. X. Welsh girl in the costume of part of Gwent.
Printed at the National Library of Wales

[Ffig. 2] *Enghreifftiau o gynlluniau ar gyfer gwisgoedd a dadogir ar Arglwyddes Llanover. (Atgynhyrchwyd o gardiau post a argraffwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru)*



[Ffig. 3] *Plas Llanofar. Ffotograff wedi ei atgynhyrchu o albwm teuluol Llanofar a Herbert. (Archifau Gwent, Misc MSS 1931)*



[Ffig. 4] *Mrs Herbert (merch Arglwyddes Llanofar) yn sefyll yn y canol gyda Betha Jones yn eistedd gan astudio'r darlun. Ffotograff wedi ei atgynhyrchu o albwm teuluol Llanofar a Herbert. (Archifau Gwent, Misc MSS 1931)*

Gwent y dylai ei barn hi gael parch. Llwyddodd Gwenynen Gwent i godi £800 gan gyfeillion o Sir Fynwy, mwy nag unrhyw ranbarth arall. Ond nid oedd cytundeb ymhlith y pwyllgor ynghylch dyluniad y gemwaith. O ganlyniad bygythiodd Arglwyddes Llanofwr dynnu'r arian yn ôl:

Pray let it be known that I have fought to the death and if the money is not misappropriated those that are true to the country may thank me. No creature spoke a word against the nationality of the token but none had the courage to speak out at all, except Lord C. himself who was increasingly wrangling and interfering.⁶ I have been the victim of such real and determined and continued persecution on part of Lord and Lady Cowdor and their ignoble friends [...] because I would not sell South Wales and consent to the money of the honest Cambrian subjects.⁷

Yr oedd Arglwyddes Llanofwr yn wrthwynebydd deallus a galluog. Dadleuodd yn awdurdodol ynghylch materion gwleidyddol a chrefyddol. Pan geisiodd aelodau seneddol rwystro Deddf Cau'r Sul (y darn cyntaf o ddeddfwriaeth a luniwyd yn arbennig ar gyfer y Cymry yn 1881), defnyddiwyd statws Sir Fynwy fel esgus. Hynny yw, oherwydd bod Sir Fynwy yn gysylltiedig â chylchdaith cyfraith Rhydychen nid oedd modd cynnwys Sir Fynwy yn y ddeddf ac felly dim ond taith fer dros afon Rhymni oedd yn sefyll rhwng trigolion Morgannwg ac yfed ar y Sul. Mewn llythyr i'r *Western Mail* dywedodd:

It is evident that the opponents of the Sunday Closing Bill for Wales are fully aware their cause is materially assisted by debarring the county of Monmouth from participating in action of the Bill for Wales, but this does not in the slightest degree disprove her being a portion of the Principality of Wales upon incontrovertible ground [...].⁸

Yr oedd Arglwyddes Llanofwr yn berson difrifol a disgybledig. Nid oes amheuaeth am hynny, ond yr oedd yna ochr ddigrif iddi hefyd, yn enwedig wrth gario clecs, fel y dengys y llythyr hwn at Betha Johnes. Ynnddi ceir disgrifiad o Drydydd Ardalydd Bute, John Patrick Crighton Stuart:

The newspapers announced that he had joined the Greek Church, and you may imagine my anxiety to know if it is true – and my hope that it is so – for it would be a comparative blessing to Wales and elsewhere if he belonged to the Greek Church instead of the Roman Catholic. I thought at one time he was more likely to turn Jew, but

6 Ibid.

7 NLW, Dolaucothi Correspondence, letter from Lady Llanover to Betha Johnes, 3 June 1863. . LIGC, Dolaucothi Correspondence, llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofwr at Betha Johnes, 3 Mehefin 1863.

8 *Western Mail*, 27 May 1881. *Western Mail*, 27 Mai 1881.

the Greek Church is more probable. He is devoted to antiquity and if convinced by a learned Greek priest that the Pope is a modern invention, I think there would be a possibility, if not a probability of his throwing the Pope overboard!⁹

Nid oes unrhyw niwed neu atgasedd yn gysylltiedig â'i geiriau. Rhaid cyfaddef nad oedd Arglwyddes Llanofer yn cefnogi ffydd Gatholig yr Ardalydd Bute ond er nad oeddynt yn cytuno ynghylch crefydd yr oeddynt yn rhannu diddordeb mewn diwylliant. Yn 1883 cynhaliwyd cyngerdd arbennig y delyn deires yng Nghastell Caerdydd. Rhoddodd yr Ardalydd Bute fodrwy arbennig siâp gwenynen iddi hi, adlais o ddigwyddiadau ryw hanner canrif ynghynt pan dderbyniodd Gwenynen Gwent y wobr am ei thraethawd oddi wrth yr Ail Ardalydd Bute yn Eisteddfod Caerdydd 1834.

Yn sicr, yr oedd gan Arglwyddes Llanofer syniad delfrydol ynghylch y Cymry fel cenedl foesol, fwyn a duwiol. Yr oedd ei rhagfarn yn ddiysgog. Tybiai fod moesau'r Sais yn israddol i'r Cymry:

[...] walking out at night as easily as into ones own garden – without drunkenness or bad company, is a luxury unknown to the Saxons, and our dear Welsh are all Methodists, they are not tried in that way and can't throw off in the same way!¹⁰

Yn amlwg nid oedd Arglwyddes Llanofer yn gyfarwydd â nosweithiau yng Nghaerdydd, Abertawe, neu Ferthyr! Mewn ffordd patriarchaidd yr oedd hi'n 'Fam' i'r ystad ac fel unrhyw fam yr oedd hi'n dyner ond hefyd yn llym.

Mae ganddi enw drwg ymysg rhai am iddi gau'r tafarnau ar ei hystad, ac am iddi arfer lefel gryf o reolaeth y gellid ei disgrifio fel unbennaeth ond yr oedd hefyd yn benderfynol o warchod ei thenantiaid o'r cryd i'r bedd. Pan gwmpodd prif saer maen yr ystad, John Powell, yn dost daeth Arglwyddes Llanofer i gartref y teulu bob dydd i helpu edrych ar ei ôl. Disgrifiodd Mary Powell, merch John Powell, y digwyddiad yn ei hunangofiant:

In the midst of our trouble, Lady Hall and her maid came. She had known mother since a child [...] I met her at the door and hung her wraps in the little hallway. She went straight upstairs to mother's room [...] Night after night Lady Hall came and cared for father.¹¹


Croesawyd ymyrraeth yr Arglwyddes yn yr achos hwn. Yn sicr nid oedd hi'n

- 9 NLW, Dolaucothi Correspondence, letter from Lady Llanover to Betha Johnes, 1 February 1879. LIGC, Dolaucothi Correspondence, llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofer at Betha Johnes, 1 Chwefror 1879.
- 10 NLW, Dolaucothi Correspondence, letter from Lady Llanover to Betha Johnes, 4 August 1858. LIGC, Dolaucothi Correspondence, llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofer at Betha Johnes, 4 Awst 1858.
- 11 Mary Powell Sabin, *Autobiography* (unpublished photocopy, 1926), p. 5. Mary Powell Sabin, *Autobiography* (llungopi heb ei gyhoeddi, 1926), t. 5.

hapus pan benderfynodd John Powell droi at Formoniaeth a mudo gyda'i deulu i gynorthwyo adeiladu'r deml yn Salt Lake City. Yn achos un o weithwyr y stablau, William Griffiths, yr oedd symud o Lanofwr yn drosedd anfaddeuol. Ar ôl mudo i'r Unol Daleithiau datblygodd salwech meddyliol. Apeliodd chwaer William a oedd hefyd yn denant i Arglwyddes Llanofwr iddi gefnogi trefnu iddo ddychwelyd. Yn ôl Arglwyddes Llanofwr cynghorwyd iddo aros yn y lle cyntaf ac o dan yr amgylchiadau barnodd hi nad oedd ei gyrchu'n ôl yn syniad doeth. Felly er iddi ofalu am iechyd ei thenantiaid, nid oedd ei chydymdeimlad yn ymestyn at bobl a oedd wedi dewis gadael ei iwtopia.

Yr wyf wedi sôn am Wenynen Gwent, yr arweinydd diwylliannol, ac am Arglwyddes Llanofwr, pennaeth a rheolwr yr ystad, ond beth am Augusta Hall, gwraig, mam, a phennaeth ei theulu? Fel y dywedwyd eisoes, yr oedd bywyd priodasol Benjamin ac Augusta Hall yn bartneriaeth lwyddiannus. Mae Benjamin Hall, Arglwydd Llanofwr, yn haeddu mwy o sylw nag y gallaf ei gynnig yn yr ysgrif hon. Yn fyr, ymgyrchodd gyda'i wraig i gyflenwi clerigwyr a oedd yn medru siarad Cymraeg i blwyfolion Cymru, yr oedd yn aelod blaenllaw o Gymreigyddion Y Fenni, ac yn amlwg yn rhan o gylch Llanofwr. Brwydrodd dros gyflenwi dŵr glân i drigolion Llundain ac mae'n debyg i gloch cloc Tŵr San Steffan 'Big Ben' gael ei enwi ar ei ôl am iddo weithio fel 'Commissioner for Works' tra cafodd ei chastio.

Cawsant dri o blant, dau fab a merch. Dim ond eu merch Augusta Charlotte Elisabeth a fu fyw'n oedolyn. Fe'i hadnabuwyd fel Gwenynen Gwent fach ac etifeddodd ddiddordeb a dyletswydd ei mam mewn perthynas â Chymru. Erbyn 1850 yr oedd Arglwyddes Llanofwr wedi claddu ei mam a'i dau fab. Nid oedd hunandosturi yn nodwedd fawr o'i phersonoliaeth ond ar achlysuron prin cyfaddefai ei theimladau at Betha Johnes:



[Ffig. 5] Arglwydd Llanofwr.
Ffotograff wedi ei atgynhyrchu o
albwm teuluol Llanofwr a Herbert.
(Archifau Gwent, Misc MSS 1931)

I was much depressed yesterday [...] from [...] the mental effect of seeing again after so many years the same glorious sea and mountains and Palaces illuminating the same sun that shone on my poor dear mother, Hanbury and Caradoc, as if only one night has passed since we were here together, and yet all [are] gone from this world [...].¹²

Nid oes llawer o dystiolaeth ynghylch pa fath o riant oedd Arglwyddes Llanofer. Mae'n debyg i'r plant gael gwersi Cymraeg ac mae'n amlwg iddynt gael eu trochi mewn amgylchedd celfyddydol a deallusol. Gallwn dybio mai rhiant sylwgar, yn ymddiddori ym mhob agwedd o fywyd ei phlant, ydoedd. Yn ei rôl fel mam-gu gyrrodd lythrau at nyrs ei hwyron a'i hwyresau gan roi cyfarwyddiadau clir:

I have never seen the gowns and petticoats I bought for them on their backs but twice and I do not think they ever wear them. I have never seen the muslin handkerchiefs I gave them either [and] you know how I dislike to see wrong colours out together [...] I know that you cannot get other clothes for them but take the first opportunity (when you have a good one) of telling Mrs. Herbert when their things are bad or look ill.¹³

Yr wyf hyd yn oed wedi darllen llythyr sy'n manylu ynghylch yr union faint o fwyd a oedd i'w roi i bob plentyn, hyd y fefusen olaf! Gallwn godi'r cwestiwn: a oedd yr Arglwyddes yn niwrotig neu a oedd hyn yn ffordd o ddangos cariad?

Efallai mai'r ergyd bersonol fwyaf oedd marwolaeth ei gŵr drwy ddamwain saethu. Gofalodd amdano'n dyner ac mae'r nodiadau chwim a ddanfonwyd at Betha yn darlunio'r sefyllfa:

[...] he is much worse [...] and in pain – obliged to have chloroform continually to produce relief – could not go from one bed to another yesterday – can scarcely take anything now – even through a teapot spout. Pray for him for me [...] this is very bitter but God knows best – I try to say sincerely 'Thy will be done.'¹⁴

Yn ei nodyn olaf dywedodd, 'The light of my life is gone. He died at ½ past 3 this morning after fearful sufferings [...] I am very miserable – I ought to be more thankful for him.' Mae un o sylwebyddion y cyfnod wedi awgrymu bod gwaith a dylanwad Arglwyddes Llanofer wedi edwino ar ôl marwolaeth ei gŵr. Mae'n

12 NLW, Dolaucothi Correspondence, letter from Lady Llanover to Betha Johnes, 26 October 1858. LIGC, Dolaucothi Correspondence, llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofer at Betha Johnes, 26 Hydref 1858.

13 Cardiff, St Fagans National Museum of History MS 3520/6-47, 'A Collection of Personal Letters Written Mainly to Ann Phillips', letter from Lady Llanover to Ann Phillips, 25 August (?)1864. Caerdydd, Amgueddfa Werin Sain Ffagan, llsgr. 3520/6-47, 'A Collection of Personal Letters Written Mainly to Ann Phillips', llythyr oddi wrth Arglwyddes Llanofer ar Ann Phillips, 25 Awst (?)1864.

14 NLW, Dolaucothi Correspondence, April 1867. LIGC, Dolaucothi Correspondence, Ebrill 1867.

anodd imi gytuno â'r safbwynt hwnnw. Efallai y gallwn drafod pam yn nes ymlaen. Hyd yn oed fel hen fenyw parhaodd i gyfweld pob tenant newydd ac yr oedd ei dyletswyddau fel pennaeth y teulu yn parhau. Mae'n fraint darllen ffynonellau mor emosynol a phersonol. Mae natur yr ohebiaeth yn ein hatgoffa bod teulu, cariad, a cholled yn nodwedd o fywyd sy'n ein cysylltu i gyd.

Trwy ddefnyddio geiriau Arglwyddes Llanofwr ei hun, yr wyf wedi ceisio rhoi blas o'i phersonoliaeth gymhleth a diddorol. Mae yna berson chwedlonol, sef Gwenynen Gwent, a thu ôl i'r chwedl fe geir unigolyn cryf a chymhleth yn llawn elfennau negyddol a chadarnhaol. Mae'n addas imi gloi drwy amlygu esboniad ei llwyddiant:

[...] and when asked how it was that she almost invariably attained the ends for which she strove, 'By remembering my mothers advice,' was her reply, 'never to lose sight of your object or any other opportunity of furthering it.'¹⁵

Yr oedd y bywyd neilltuol a gâi ei fyw yn Llanofwr yn cael ei gynllunio a'i lywio'n ofalus gan Wenynen Gwent. Hi oedd yr ymgorfforiad o fywyd delfrydol Llanofwr. Bu farw ar ôl salwch byr ar 17 Ionawr 1896. Cafodd ei bywyd hynod a'i chyfraniadau i ddiwylliant Cymru ac at ddatlu ei thraddodiadau eu trafod ledled y wlad. Ymhyfyrododd y wasg wrth edrych yn ôl ar fywyd llawn cyffro, ymgyrchoedd, a dadleuon. Tra bod rhai sylwebyddion yn ei gweld fel ecsentrig a ramantai dros Gymru'r gorffennol, gwelai rhai etifedd pellgyrhaeddol. I rai yr oedd yn destun digrifwch ond yr oedd eraill yn ddiolchgar tu hwnt am ei hymdrechion dros Gymru ac yr oedd parch mawr tuag ati. Beth bynnag oedd barn unigolion, cytunai pawb a oedd yn ei hadnabod neu a wyddai am Wenynen Gwent ei bod hi'n wirioneddol unigryw:

A bitter pang was the thought that Wales was deprived of a long and steadfast friend, whose love of country has been something far more precious and real than an empty and vapid statement. The thought that was uppermost in every mind and it came with telling force crystallised in the phrase 'We shall never look upon her like again.'¹⁶

15 Cardiff, Cardiff Central Library MS 3771, 'Press Cuttings, 1860–96, Relating to Lord and Lady Llanover', *South Wales Daily News*, undated. Caerdydd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd, llsg. 37771, Press Cuttings, 1860–96, Relating to Lord and Lady Llanover', *South Wales Daily News*, heb eu dyddio.

16 *Wales Weekly News*, 25 January 1896. *Wales Weekly News*, 25 Ionawr 1896.